# y DINESYDD

MEHEFIN 1995 — "LLAIS Y GYMUNED" — RHIF 209

PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH


# Dyfedwr wrth y llyw

GAN **B. D. HARRIES**

YN rhifyn Mai o'r Dinesydd cawsom gyfle i longyfarch Mr Huw Thomas yn galonnog ar gael ei benodi'n brifathro Ysgol Gyfun Glantaf i ddilyn Mr Malcolm Thomas.

Er ei fod wedi treulio'r rhan fwyaf o'i fywyd yn y de-ddwyrain, brodor o San Cler yw'r prifathro newydd, ac felly Dyfedwr fydd eto wrth y llyw yng Nglantaf. Ar ôl gyrfa academaidd lewyrchus iawn yn ysgol Hendy-gwyn a'r coleg ger y lli, daeth yn athro i ysgol Rhydfelen yn 1966. Yn ystod ei arhosiad yno ymgymerodd â nifer o swyddi pwysig; bu'n bennaeth adran, yn bennaeth yr ysgol ganol ac yn gofrestrydd.

Trwy gydol ei yrfa bu ar flaen y gad yn y gwaith arloesol o ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg gan ysbrydoli eraill drwy air a gweithred a thrwy ei argyhoeddiad fod dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn phenomenom naturiol per se. Fe'i dyrchafwyd yn brifathro ysgol newydd Cwm Rhymni yn 1981.

Er gwaethaf anawsterau amlwg - yr ysgol mewn pum bloc ar ddau brif safle, a dim ond tua 5% o'r disgyblion o gartrefi Cymraeg - y mae llwyddiant yr ysgol mewn amrywiol feysydd yn gwbl amlwg erbyn hyn.

Ers rhai blynyddoedd bellach mae tua 900 o ddisgyblion yn yr ysgol. Gwyddys iddi fod ar y brig yn gyson ym MorgannwgGanol o ran canlyniadau Lefel A a gŵyr y rhai ohonom sy'n dal i ddiddori yn y bêl hirgron, er gwaethaf y dirywiad cenedlaethol, am orchestion diweddar yr ysgol yn y cyfeiriad hwnnw.

Gwelir bod ganddo brofiad helaeth o ymwneud â phlant y ddinas, y fro a'r cymoedd, ac mae'n ymwybodol iawn o'r problemau sy'n wynebu plant felly wrth dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, ail iaith i'r mwyafrif ohonynt bellach. Mae'n edmygu'n fawr iawn ymddiriedaeth a ffydd eu rhieni ac yn llwyr sylweddoli maint y cyfrifoldeb y mae agwedd felly yn ei osod ar ysgwyddau prifathrawon ac athrawon ysgolion Cymraeg.

Yn wahanol i lawer o brifathrawon newydd sy'n teimlo (gwaetha'r modd) mai eu dyletswydd yw newid pawb a phopeth dros nos bron, y mae'n bendant o'r farn mai'r gwir her iddo ef yng Nglantaf fydd adeiladu ar lwyddiannau'r gorffennol o fewn y dosbarth ac o ran gweithgareddau allgyrsiol.

Da yw deall ei fod, fel y disgwylid, yn ymwybodol iawn o'r

parhad ar dud 2



Llun: Robin Griffith

## TU MEWN I'CH DINESYDD...


| | |
|---|---|
| Pytiau | 3-4 |
| Cofio | 5-6 |
| Nodwedd: Y lleddf yn troi yn llon | 8-9 |
| Ysgolion | 10 |
| Dysgu Cymraeg | 11 |
| Chwaraeon | 12 |
| Croesair | 16 |

# Dyfedwr wrth y llyw

☛ *parhad o dud 1*

sialens a rydd cefndir ieithyddol y disgyblion i bob athro o fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth a da yw clywed, yn y byd sydd ohoni, am ei fwriad i gefnogi ac ymestyn cyrsiau galwedigaethol o fewn yr ysgol.

Mae'n edrych ymlaen yn eiddgar at ymgymryd â'r swydd newydd ac rydym i gyd, mae'n siwr, yn barod i ddymuno'r gorau iddo ef a'i staff, a'r un mor barod, gobeithio, i fanteisio ar bob cyfle a ddaw i'n rhan i'w cefnogi mewn gair a gweithred. **D**


# y DINESYDD

Mehefin, 1995. Rhif 209.

Cyhoeddir y Dinesydd gyda chymorth Cyngor y Celfyddydau a'r Swyddfa Gymreig. Fe'i dyluniwyd gan Newsline, Caerdydd, ac fe'i argraffwyd gan CIT Printing Services, Hwlffordd.

## Y TÎM GOLYGYDDOL

Bydd angen y deunydd ar gyfer Dinesydd Mehefin erbyn 10 Mai.

Anfonwch unrhyw ddeunydd at y tîm golygyddol fel a ganlyn:

**Mr B D Harries**, 6 Lakeside Drive, Caerdydd (756562): newyddion byd addysg

**Mr Wyn James**, 16 Ffordd Kelston, Caerdydd (628754): newyddion yr Eblwys Newydd

**Mr W J Jones**, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (756282): cyffredinol

**Mr Gwilym Roberts**, 6 Heol Wen, Caerdydd (693254): newyddion am bopeth

Anfonwch newyddion am chwaraeon at:

**Mr Tom Davies**, 41 Highfields, Caerdydd (564540)

Anfonwch newyddion yr eglwysi at:

**Y Parchedig Gwilym Davies**, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd (626811)

## HYSBYSEBION

Mae'r Dinesydd yn ffordd ddelfrydol i gyrraedd sylw pobl Caerdydd a'r cylch. Os am hysbysebu, byddwch gystal a chysylltu â **Mr Tim Pearce, Newsline, 24 James Street, Caerdydd CF1 6EX. Ffôn 452383 Ffacs 487220.**

## DIWEDD Y GAN...

Gwyddoch bod y Dinesydd yn dibynnu ar ein hysbyswyr, sy'n haeddu eich cefnogaeth, yn ogystal ag ar grantiau ac arian gan gymdeithasau ac unigolion.

Os teimlwch ichi hoffi darllen y rhifynnau newydd diweddaraf, beth am ddangos eich gwerthfawrogiad trwy anfon cyfraniad at ein trysorydd:
**Mr Aled Williams, Rhos-y-grug, Pen-twyn, Radur, Caerdydd CF4 8RE**

Cydnabyddir pob rhodd i'w gadw ar wyneb y dwr ar dudalennau'r Dinesydd



**Huw Roberts** BSc., ACMA

*Cyfrifydd*

**Cyngor ariannol annibynnol ar gyfer treth, pensiynau a buddsoddiadau**

"Y Rhodfa", 5 Pine Court, Forest Hills,
Talbot Green, Morgannwg Ganol CF7 8LA

☎ 01443 224182

RHEOLWYD GAN Y PERSONAL INVESTMENT AUTHORITY


# GORAU PWYLL PWYLLGORA?

**BECA BROWN YN SGRIFENNU**

*DW I mewn peryg o swnio fel tipyn o Glwb Iforoholic wrth sôn am y sefydliad hwnnw unwaith eto. Y tro dwytha imi wneud hynny, canu clodydd yr hen le o'n i ar y cyfan, ond stori wahanol braidd ydi hi'r tro yma.*

*Mae'r anniddigrwydd 'ni a nhw' rhwng cwsmeriaid y Clwb a'i bwyllgor wedi bodoli erioed ond dros yr wythnosau diwethaf mae'r teimlad annifyr hwnnw wedi cyrraedd uchafbwynt anffodus.*

*Rydyn ni i gyd yn ymwybodol mai clwb Cymraeg ydi Clwb Ifor Bach - cerwch yno ar nos Sadwrn a Chymry Cymraeg yw naw deg y cant o'r rhai sydd yno. Mae Caerdydd yn llawn clybiau poblogaidd ac mae pobol sy'n mynd i Glwb Ifor yn mynd yno oherwydd fod y gerddoriaeth yn dda yno (dw i'n sôn am y neuadd fan hyn, wrth gwrs).*

*Mae pobol yn mynd i Glwb Ifor felly i gymdeithasu ac i ddawnsio ac mae cerddoriaeth felly'n chwarae rhan bwysig. Cerddoriaeth sy'n denu'r bobl yno i gymdeithasu a'r gerddoriaeth sy'n eu cadw yno i ddawnsio ac enjoio.*

*Roedd y gerddoriaeth a chwaraewyd ar nos Sadwrn beth amser yn ôl yng Nghlwb Ifor yn Saesneg ac Americanaidd yn bennaf ac mae yno gnewyllyn o DJs o safon cystadleuol sydd yn chwarae yr hyn y mae pobl am ei glywed. Cerddoriaeth Saesneg mewn clwb Cymraeg - problem? Mae'r pwyllgor yn meddwl ei bod hi.*

*Maer pwyllgor (sydd yn mynychu'r Clwb yn rheolaidd, wrth gwrs) bellach wedi penderfynu gosod rheol ar yr hyn y gellir ei chwarae yn y neuadd, a'r rheol honno yw y dylid chwarae yr un faint o gerddoriaeth Gymraeg a Saesneg. Iawn mewn theori, ond does dim digon o gerddoriaeth addas o safon drwy gyfrwng y Gymraeg - mae yna rywfaint, fel Diffinad a Tŷ Gwydr, ac fe ddylid eu chwarae, ond allwch chi ddim chwarae Catatonia a Gorky's ar ganol set dawns. 'Demand and supply' ydi hi yn Clwb Ifor hefyd ac os na rowch chi i bobl yr hyn maen nhw isio, mi an nhw i rywle arall, ac wedyn mi fydd y Clwb yn colli busnes.*

*Efallai bod y Cymry ifanc sydd yn mynd i Glwb Ifor Bach yn dawnsio i gerddoriaeth Saesneg ond siarad y Gymraeg y maen nhw, a mwynhau eu hunain drwy gyfrwng y Gymraeg - a dyna sy'n bwysig.* **D**

# Hyrwyddo diwylliant

PYTIAU

LLONGYFARCHION i Robin Gwyndaf ar gael ei ethol yn aelod o Fwrdd Cydwladol Canolfan Ewropeaidd UNESCO er Hyrwyddo Diwylliant. Sefydlwyd y ganolfan yn Budapest ym mis Mawrth eleni o dan nawdd UNESCO a llywodraeth Hwngaria, a'r prif amcan yw hyrwyddo a diogelu diwylliant gwerin ym mhob un o wledydd gorllewin a dwyrain Ewrop.

Mae Robin Gwyndaf yn Is-geidwad yn Amgueddfa Werin Cymru ac yn Gymrawd Llên Gwerin Cydwladol. Yn ystod ei ymweliad diweddar â Hwngaria bu'n darlithio i'r Academi yn Budapest a bu hefyd yn westai'r Amgueddfa Werin yn Bucharest, Romania. Yn gynharach eleni enillodd Ysgoloriaethau'r Academi Brydeinig a Chwmni Intach UK i dreulio tair wythnos yn India ac i ddarlithio ym Mysore yn ne'r wlad.



# Torri tir newydd

LLONGYFARCHION i Gwyneth Lewis, un o blant y ddinas a chyn-ddisgybl yn Ysgolion Bryntaf a Rhydfelen ar gyhoeddi ei hail gyfrol o farddoniaeth, "Parables and Faxes", nifer o gerddi Saesneg sydd wedi ennill sylw'r beirniaid am ffresni'r arddull a'r delweddu. Dywedir ei bod yn torri tir newydd ym myd sgrifennu Saesneg yng Nghymru.

"Sonedau Resda" oedd teitl cyfrol Gymraeg Gwyneth, cyfrol y bu gwerthu da arni. Mae wedi bod yn gwneud gwaith ymchwil ar weithiau Iolo Morganwg ac mae'n gweithio gyda'r BBC.

# Un iaith eto

LLONGYFARCHION i Robin Anderson, Parc y Rhath, mab Donald a Mallt Anderson ar ei briodas ddiweddar yn Norwich â Rebecca Morton. Athrawes ieithoedd modern yw Rebecca ac ar hyn o bryd mae'n ychwanegu'r Gymraeg at ei hieithoedd eraill. Mae Robin yn gweithio i Fwrdd Iechyd De Morgannwg.

# Merch newydd sbon

LLONGYFARCHION i Caryl Parry Jones a Myfyr Isaac ar enedigaeth eu merch newydd sbon, Greta Morfudd yng nghanol Mai, chwaer fach i Gideon, Elan, Miriam a Morgan.

# Datguddio'r Pasiant

DANGOSODD nifer ohonoch ddiddordeb yn llun Pasiant Minny Street yn rhifyn Ebrill. Aeth Mrs Mair Taylor ati i gasglu pob enw at ei gilydd ac mae'r Dinesydd yn wir ddiolchgar iddi am ei chymwynas. Dyma nhw mewn trefn:

*Gwilym ap Robert, Azariah Jones, Hettie Edwards, Mrs Prosser, Megan Roberts, Beryl Llywelyn, Edward Millward, Bobi Jones, Alwyn Prosser, Sidney Evans, Huw Ethall, Mair Jones (Taylor), Mrs Ernie Phillips, Margaret Howells, Margaret Evans, Jennie Evans, Mrs Neethy, Mrs Williams, Ann Prosser, Elunis Gibbs (Goodfellow), Clem Thomas, Geoffrey Sparrow, Caryl Davies, Delyth Thomas, Marion Rees, Gwyn Jenkins, Brian Evans, Mrs Sidney Evans.*

# Map yr Urdd

ELENI mae Mudiad yr Urdd yn dathlu canmlwyddiant geni Syr Ifan ap Owen Edwards, ac fel rhan o'r dathlu mae'r Urdd wedi cynhyrchu map o Gymru yn nodi'r prif ddigwyddiadau ym mywyd sylfaenydd yr Urdd.

# Cyfarfod blynyddol

CYNHALIWYD cyfarfod blynyddol Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina ar nos Lun Calan Mai yn neuadd Eglwys yr Holl Saint ac etholwyd MeganDavies yn gadeirydd am y tymor sy'n dod. Eunice Iddles fydd yr is-gadeirydd ac Elwyn Parry'n drysorydd. Bydd Haydn Jones yn aros yn ei swydd fel ysgrifennydd am flwyddyn arall. Etholwyd Myfanwy Jenkins a Margaret Davies yn aelodau o'r pwyllgor.

Ar derfyn y cyfarfod busnes cafwyd cwis hynod ddiddorol dan arweiniad Dennis Francis. Edrychir ymlaen at y cyfarfod cyntaf ym Medi yn festri Capel Bethany, Heol Llanishen-fach.

# 100 o gynrychiolwyr

CYNHALIWYD Cymdeithasfa'r De y Presbyteriaid yng nghapel Heol Crwys ar yr ail a'r trydydd o Fai. Fe ddaeth ymron gant o gynrychiolwyr ynghyd. Yn ystod y gynhadledd dyrchafwyd D Gwyn Jones, yr Eglwys Newydd i Gadair y Blaenoriaid. Cadeirydd newydd y Gymdeithasfa yw'r Parchedig Gwilym Ceiriog Evans, Aberystwyth.

# Ennill y loteri...

DRWY'R Loteri Genedlaethol mae Clwb Rhwyfo Llandaf wedi bod yn lwcus yn ei gais am arian i ddatblygu'r cyfleusterau yn y clwb ar lan afon Taf. Yn ol y sôn fe fydd yn derbyn cymorth o £150,000.

# A oes angen carcharau?

FE FU Carchar Caerdydd yn fan cyfarfod yn ddiweddar o dan nawdd "The Howard League for Penal reform" i drafod y pwnc, "A oes angen carcharau?" Y prif siaradwyr oedd Yr Athro Nils Christie, Prifysgol Oslo, Yr Arglwydd Eatwell a Syr Louis Blom-Cooper.

Dywedodd yr Athro Christie nad oedd cymdeithas yn barod i ateb y cwestiynau pwysig fel: "Pwy ydyn ni'n eu hanfon i garchar?" ac "Am ba hyd yr anfonwn ni nhw i garchar?"

Mae'n arwyddocaol inni weld ffrwydrad diweddar ym mhoblogaeth carcharau'r UD ac yng nghyn-wledydd USSR. Siaradodd yr Arglwydd Eatwell am y berthynas rhwng tlodi ac anghyfraith. Yn ei farn ef, byddai rhoi gwaith, yn enwedig i'r ifanc, yn gwella pethau o safbwynt carcharau. Pwysleisiodd Syr Louis Blom-Cooper yr angen am leihau swm anghyfraith yn y gymdeithas, rhoi mwy o sylw i'r rhai sy'n dioddef, am beidio â goddef tor cyfraith a pharhau i garcharu troseddwyr peryglus.

Bu trafodaeth ddiddorol wedi'r areithiau ymhlith y gynulleidfa oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r rhai hynny sy'n ymwneud a'r drefn gyfreithiol.

# Trwy lygaid gwyrddion





YN DDIWEDDAR yn Llyfrgell y Ddinas traddododd Angela Graham, Caerdydd ac Iwerddon, ddarlith ddiddorol ar Gymry trwy lygaid un o Iwerddon. Cyn dechrau'r ddarlith, dangosodd glipiau o'r ffilm Branwen a gynhyrchwyd ganddi. Dywedodd fod pobl Iwerddon lawer yn fwy ymwybod o'u hanes na phobl Cymru ac eglurodd fel yr oedd hi'n edrych yn wahanol i rai o bobl Cymru ar arwyr ein gwlad. Fel enghraifft, dywedodd iddi gael ei dysgu i gasau Lloyd George am yr hyn a wnaeth ef i Iwerddon.

Aethai i Gaernarfon unwaith a synnu gweld ei gelyn mawr ar bedestal ar y maes; ac yn cael ei fawrygu.

Doedd dim rhaid iddi hi fynd mor bell a Chaernarfon i weld delw o Lloyd George. Pan fydd amser ganddi o'i gyrfa brysur yn cynhyrchu ffilmiau, gall daro i'r Ganolfan Ddinesig i weld delw o'i hen elyn.

Fel nifer o rai eraill o Iwerddon sy'n byw yn y ddinas, mae Ms Graham wedi dysgu siarad Cymraeg.


Llun: Robin Griffith

# Athro newydd

LONGYFARCHION i Dr Alan Shore, Parc y Rhath ar ei benodi'n Athro yn Adran Peirianneg Electroneg yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor. Brodor o Dredegar Newydd ydy'r Athro newydd ac fe'i haddysgwyd yn Ysgol Lewis i Fechgyn, Pengam ac yng Ngholeg Iesu, Rhydychen. Daeth i Gaerdydd ar ôl hynny i wneud gwaith ymchwil yng Ngholeg y Brifysgol ac yn ystod y cyfnod hwn dysgodd Gymraeg yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy. Mae'n briod ag Elisabeth, merch o Langybi ger Chwilog yn Eifionydd ac mae iddyn nhw ddau o blant, Angharad a Rhodri - disgyblion yn Ysgol Gyfun Glantaf.

Dechreuodd Dr Shore ar ei yrfa ym Mhrifysgol Lerpwl ond dewisodd fyw yng Nghymru, ym Mhen-y-ffordd yng Nghlwyd.

Yn 1993 fe'i penodwyd yn uwch ddarlithydd ac yna'n Ddarllenydd ym Mhrifysgol Caerfaddon a dewis byw yng Nghaerdydd.

Mae Elisabeth yn flaenor yng Nghapel y Crwys ac yn weithgar gyda Chymdeithas Ddrama'r capel. Bydd colled fawr ar ôl y teulu gweithgar hwn ond dymuniadau da iddyn nhw yn eu cartref newydd yn y gogledd.

# Bardd a llenor

COFIO

GAN
HUW ETHALL



Darn o borslen. Llun gan van Gogh. Llais Bryn Terfel. Byd y pethau prin, prin. Ac ym myd pobol, Glyn Jones. Er iddo gael ei eni ym Merthyr, un ohonom ni, ddinasyddion Caerdydd oedd Glyn gan iddo fyw yma am y rhan fwyaf o'i oes hirfaith. Ond fe fyddai'n wyrthiol, serch hynny, pe na bai Merthyr a'i phobol yn dod i mewn i'r sgwrs cyn y diwedd. A byddai ei lygaid yntau'n gloywi.

Fe'i ganed mor bell yn ôl â 1905 ond cadwodd yn ifanc ei ysbryd, ei sgwrs a'i ddiddordebau hyd at y diwedd. Dim ond yn ystod yr wythnosau olaf o'i fywyd yr oeddem yn ymwybodol o fod yng nghwmni gwr 90 oed a dirywiad y corff, ond nid y sgwrs, yn adlewyrchaid o hynny.

Bendithiwyd ef a wyneb artistig, llais diwylliedig a phersonoliaeth ddengar. Safai allan ym mhob cwmni er ei fod y mwyaf anymwythiol o ddynion. Gwisgai'n drwsiadus-liwgar bob amser ond heb arlliw o geisio bod yn fwriadol fohemaidd. Fe'i cyfrifid gan y beirniaid llenyddol, fel y dywedwyd lawer gwaith yn y teyrngedau iddo adeg ei farw, yn un o arloeswyr yr awduron Eingl-Gymreig a chyfrif Dylan Thomas, Vernon Watkins, Gwyn Thomas, Jack Jones ac eraill yn ffrindiau agos ond ni fyddai byth yn esgeuluso ffrindiau llai enwog nac ambell un nad oedd yn enwog o gwbwl. Ac o bob man, yn ei hoff gapel, Minny Street, lle bu'n ddiacon ac yn athro ysgol Sul, roedd pob un ohonom, fel addolwyr, ar yr un gwastad.

Ar yr aelwyd cyfoethogai bob sgwrs a'i blasu â hiwmor slei a ffraethineb iach. Deuai D. H. Lawrence, Wordsworth, Dafydd ap Gwilym, Waldo, hen gymeriadau gwerinol Merthyr Tudful a llawer un arall i mewn i'r sgwrs ac ni fyddai sôn am Soar, Merthyr yn ddieithr, chwaith.

Rhoddodd rai o'i brofiadau fel athro ysgol yn ei nofel lwyddiannus, The Learning Lark, a droswyd i'r Gymraeg gan Harri Pritchard Jones gyda'r teitl, Miri Dysgu. Gadawodd y profiad o ddysgu plant tlawd a difreintiedig dinas Caerdydd argraff

☛ *parhad drosodd*

# Dr Ernest John Eurfyl Jones




AR DDIWEDD Ebrill yn Ysbyty Glangwili bu farw'r Dr Ernest John Eurfyl Jones, seiciatrydd ymgynghorol yn Ysbyty Dewi Sant, Caerfyrddin. Fe fu ei ferch Siân a'i fab-yng-nghyfraith Dafydd Johnston yn byw yng Nghaerdydd am flynyddoedd cyn symud yn ôl i Gaerfyrddin yr haf diwethaf gyda'u plant, Lowri, Gruffydd ac Ifan. Mae ei fab Sion a'i ferch-yng nghyfraith Janet (merch Mervyn a Virginia Thomas, Llandaf) yn byw ym Mhenarth gyda'u plant Rhian a Llinos. Mae'r cysylltiad a fu rhwng Mr Jones a Chaerdydd yn mynd yn ôl i'r adeg pan oedd yn fyfyriwr yng Ngholeg Meddygol Cymru, a bu'n ddarlledydd cyson ar raglenni radio a theledu cynnar yn y Gymraeg ar bynciau meddygol. Bydd y golled ar ei ôl yn fawr.

# Huw Owen

CYDYMDEIMLWN â Myfanwy Jarman ar ei phrofedigaeth yn ddiweddar pan gollodd ei brawd, Huw Owen, Llangefni. Dim ond Myfanwy sydd ar ôl mwyach o deulu o dri ar ddeg o blant.

# Bardd a llenor

☛ *parhad o dud 5*

annileadwy arno. Pan dorrodd yr Ail Ryfel Byd allan cofrestrodd fel gwrthwynebydd cydwybodol a cholli ei swydd dan Gyngor Dinas Caerdydd ond ei chael yn ol gan Gyngor Sir Forgannwg. Blynyddoedd creulon yr erlid fu'r rhain ond ni chwerwodd Glyn na tharo'n ôl.

Er iddo gael ei wahodd yn aml i annerch cynadleddau llenyddol, siarad ar y radio, cynorthwyo myfyrwyr yn eu gwaith ymchwil, heb anghofio derbyn Doethuriaeth er Anrhydedd gan Brifysgol Cymru a'i wneud yn Gymrawd o Goleg y Drindod, Caerfyrddin, yr un seis het a wisgodd ar hyd yn blynyddoedd a dal yn un ohonom ni.

Yn ei flynyddoedd olaf cafodd driniaeth lawfeddygol blin a dangos dewrder digwyno pan gollodd ei fraich dde. Brwydrodd i ysgrifennu a theipio a'i law chwith a daliodd y wên drwy'r cyfan.

Hanai tylwyth ei dad o Lansteffan a pharadwys fach oedd yr ardal honno iddo ef a Doreen, ei briod. Nid rhyfedd felly mai yno y gorwedd ei lwch.

Bydd bwlch mawr ar ei ôl. **D**

# Howell Lloyd Evans

A MIS Mai yn ei flodau, bu farw Howell Lloyd Evans, (Lloyd Bwlch-llan) un o bileri'r bywyd Cymraeg yn y ddinas. Cyn ymddeol bu'n brifathro Ysgol Colcot, Y Barri; wedi ei ymddeoliad, bu wrthi'n llafurio'n galed mewn sawl maes gan fod ei ddiddordebau mor eang. Cydymdeimlir yn ddwys a'i wraig Enyd ac ag Aled a Nest, y plant, yn eu galar.

# John Griffiths

YN FRAWYCHUS o sydyn ar 5 Mai bu farw John Griffiths, tiwtor blwyddyn saith Ysgol Willows,Tremorfa, tra wrth ei waith yn yr ysgol, ac yntau'n 47 oed.

Gŵr a'i wreiddiau yng Nghwmtawe oedd Mr Griffiths a bydd yr ysgol a'r gymdeithas yn cofio amdano fel gŵr oedd yn llenwi ei fywyd i'r ymylon, yn athro ymroddedig, mawr ei barch, un oedd yn barod i gerdded yr ail filltir bob amser. Ymhlith ei ddiddordebau y tu allan i'r ysgol, roedd yng ngofal tim rygbi dan bymtheg Caerdydd. Mae Cronfa Goffa John Griffiths wedi cael ei chychwyn i gofio amdano. Gellir anfon cyfraniadau at Mr John Rees yn Ysgol Willows.

# Elwyn William Timothy

AR DDIWEDD Ebrill bu farw Elwyn William Timothy yn 76 oed ym Mangor.

Fe fu'n byw ger y Wenallt yng Nghaerdydd am flynyddoedd. Ar ôl bod yn gyhoeddwr gyda'r BBC fe'i dyrchafwyd yn bennaeth yr adran weinyddol. Wedi iddo ymddeol treuliodd beth amser yn Awstralia cyn dychwelyd i Ynys Môn. Cydymdeimlir â'i wraig, Phyllis ac â'i blant a'r wyrion.

# Esyllt Lawrence

YN GYNNAR yn Ebrill, yn Ysbyty Pen-y-bont ar Ogwr, bu farw Esyllt Lawrence, Y Bont-faen. Treuliodd lawer o'i hamser yn Catalunya, Sbaen.

Roedd ganddi ddiddordeb byw yn llenyddiaeth y ddwy wlad a throsodd rai o weithiau Catalunya i'r Gymraeg. Tra oedd yn byw yn Sbaen roedd yn ymwelydd cyson â'r Eisteddfod Genedlaethol.

# Troi'n Gymro gyda Chymro

**Ychydig yn ôl yn *Y Dinesydd*, cawsom dipyn o hanes taith gan Alan Greedy. Er i'r erthygl ymddangos, mae nifer wedi gofyn, pwy yw'r morwr hwn o Gaerdydd. Wel Dyma'r ateb.**




GANWYD Alan Greedy ar ochr ogleddol Caerdydd mewn aradl wledig oedd hyd y pryd hwnnw yn baradwys natur. Daeth i adnabod adar ac anifeiliaid y coedydd o'i amgylch, ac roedd yn byw fel Tarzan bach. Mae'r cyfnod hwnnw wedi dylanwadu'n drwm arno.

Roedd yn aelod o Gapel Presbyteraidd Park End lle roedd Geraint Nantlais Williams yn weinidog. Yn Ysgol Uwchradd Caerdydd daeth i gysylltiad â nifer o athrawon ieuanc awyddus mewn ysgol newydd - pobl fel Alun Oldfield Davies, Roy Saunders ac yn bennaf W.C.Elvet Thomas. Yr oedd eisteddfodau Gŵyl Dewi yn fythgofiadwy a daeth i gysylltiad â Chymry Cymraeg drwy wersylloedd yr Urdd yn Llangrannog a Phorthdinllaen, lle y cwrddodd ag Ifan ap Owen Edwards ac R. E. Griffith. Daeth yr olaf yn gyfaill agos iddo'n nes ymlaen. Gydag Elvet Thomas, Roy Saunders a Maxwell Evans, cerddodd i Dyddewi ar y cyntaf o gyfres o bererindodau ac adroddwyd yn fanwl amdanyn nhw yn Cymru'r Plant.

Ymunodd â changen Awyr y Llynges a chymryd rhan mewn ymosodiadau hedfan yn erbyn U Boats Almaenig tua chanol Cefnfor Iwerydd. Un noson achubwyd ef pan aeth ei awyren Swordfish i'r môr rhyw gant o filltiroedd o'r llong. Wedyn aeth i'r Dwyrain Pell a chafodd nifer o anturiaethau yn erbyn y Japaneaid.

Ar ôl y rhyfel aeth yn ôl i'r coleg a graddio yn 1949 yn y Gymraeg, Ffrangeg ac Addysg. Treuliodd flynyddoedd melys yno yng nghwmni W J Gruffydd a Griffith John Williams.

Ar ôl cwrs gradd yn y Gwyddorau Cymdeithasol, cynigiwyd swydd yn y Swyddfa Gymreig iddo, yn adran y Swyddfa Hysbysrwydd Ganolog.

Yn ystod ei flynyddoedd yn y brifysgol roedd yn chwarae rygbi, criced a sboncen i'r coleg. Ar ôl gadael y coleg ymunodd â Chlwb Rygbi Caerdydd a chwaraeodd ar Barc yr Arfau am ryw bum mlynedd.

Yn 1954 priododd ag Elinor Evans, athrawes o Ddyfnant, merch y cyfarfu â hi yn y coleg yng Nghaerdydd. Yr adeg honno roedd tua phymtheg o bapurau wythnosol Cymraeg yng Nghymru, a rhan bwysig o'i waith oedd ysgrifennu erthyglau i'r wasg Gymraeg am waith y llywodraeth. Yn nes ymlaen bu'n gyfrifol am drefnu arddangosfeydd ac ymgyrchoedd o bob math ar gyfer gwahanol adrannau'r Llywodraeth. Bob mis Awst trefnai arddangosfa ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol ac un a dynnodd sylw oedd "Y Tŷ Cymreig" a godwyd i ddangos ehangder a phwysigrwydd cynhyrchion diwydiant y wlad. Drwy'r amser bu'n gweithredu fel cyfieithydd swyddogol a throsi nifer o ddogfennau i'r Gymraeg.



Daeth i ganolbwyntio ar waith i'r Swyddfa Dramor. Bu'n trefnu ymweliadau gan bobl ddylanwadol a dirprwyaethau o bob rhan o'r byd, gan gynnwys gweinidogoion llywodraethau, diwydiannau, undebwyr, newyddiadurwyr a darlledwyr. Trefnodd ddathlu canmlwyddiant geni'r bardd enwog Tagore yng Nghaerdydd a bu darlleniadau a chaneuon yn Bengali, Cymraeg a Saesneg.

Daeth yn gyfarwydd â phob rhan o'r wlad trwy gerdded a dringo'r mynyddoedd yn Eryri a Sir Benfro ac ymchwilio ogofau yng Nghwm-nedd a Chwmtawe.

Yn 1967, dechreuodd hwylio a chyn bo hir roedd Alan, Elinor, y tri phlentyn a Chymro'r coli ar eu ffordd i Iwerddon, Ffrainc, a Sbaen. Enillwyd Cwpan Lyndi ac yn 1979 roedd ras unigol i'r Azores ac yntau'n bedwerydd yn ei slŵp, Madog. Gan fod ei yrfa broffesiynol yn tynnu at ei therfyn yr oedd ei feddwl yn troi at deithiau mwy anturus, rhai y cawn wybod mwy amdanyn nhw yn y man. **D**

# Y lleddf yn



Llun: Robin Griffith

Capel Bethesda'r Fro

Ym mis Hydref neu Dachwedd 1794 bu farw un o brif emynwyr Cymru, Dafydd William, Llandeilo-fach. Er iddo fyw am y rhan helaethaf o'i oes yn ardal Pontarddulais, ym Mro Morgannwg y treuliodd ran ola'i fywyd gan farw yn ffermdy'r Holltwn (Holton) ger Ynys y Barri. Trwy gyd-ddigwyddiad rhyfedd, ymhen hanner can mlynedd union ar ôl marwolaeth Dafydd Williams, ac o fewn tafliad carreg bron i fan ei farw, bu farw un arall o brif emynwyr Cymru, sef Thomas William, Bethesda'r Fro, a hynny yn Nhachwedd 1844, ac yntau'n 83 oed.

Er i'w enw gael ei gysylltu fel arfer â Bethesda'r Fro, ger Sain Tathan, yn ne eithaf Bro Morgannwg, ym mhlwyf Pendeulwyn, yng ngogledd y Fro y ganed Thomas William a hynny ar 1 Mawrth 1761. Bu'n byw yn y plwyf hyd 1790. Yr oedd Dafydd William yn byw yng nghyffiniau Llanbedr-y-fro o tua 1777 ymlaen a chan fod Pendeulwyn a Llanbedr-y-fro yn blwyfi cyfagos, yr oedd Dafydd William a Thomas William yn gymdogion rhwng 1777 a 1790. Er eu bod yn rhannu'r un cyfenw nid oeddynt yn perthyn i'w gilydd, ond rhannent yr un ffydd, oherwydd, fel Dafydd William o'i flaen, daeth Thomas yn drwm dan ddylanwad y Diwygiad Methodistaidd. Ymunodd â seiat y Methodistiaid yn Nhre-lyl, ryw ddwy filltir o'i gartref, ac yntau'n ddeg oed.

## Mynd yn Fethodist



Erbyn iddo ymuno â nhw yr oedd un o'u harweinwyr amlycaf, Dafydd Jones, wedi dod yn offeiriad yn Llan-gan, tua chwe milltir i'r gorllewin o gartref Thomas William. Yn y cyfnod hwnnw byddai heolydd y Fro yn goch gan Fethodistiaid o bell ac agos yn cyrchu i Lan-gan i wrando ar bregethu grymus Dafydd Jones a derbyn cymun. Un o'r rhai mwyaf cyson oedd Thomas Williams.

Yn 1790, ac yntau'n 29 oed, priododd Thomas â merch o ardal Sain Tathan a symud i ffermio i'r rhan honno o'r Fro. Bu nawdegau'r

# troi yn llon

**Mae Wyn James yn manylu tipyn ar hanes un o emynwyr mawr ein hiaith, Thomas Wiliam.**




ddeunawfed ganrif yn gyfnod o ymrafael diflas ymhlith Methodistiaid Bro Morgannwg ac yn sgil hynny penderfynodd Thomas William ac eraill ymadael â nhw yn 1797 a ffurfio achos annibynnol. Bu'r eglwys newydd honno'n cyfarfod mewn tai annedd ar y dechrau, ac yna, yn 1807 agorwydd tŷ cwrdd pwrpasol ar eu cyfer ger Sain Tathan, sef Bethesda'r Fro. Erbyn hynny yr oedd Thomas William wedi dod yn weinidog yr achos ac yr oedd i aros felly hyd nes iddo ymddeol yn 1829. Bu'n gwasanaethu fel gweinidog am tua deng mlynedd ar hugain i gyd, ac am ei fod yn weddol gysurus ei amgylchiadau, fe wnaeth hynny'n ddi-dal. Yn ôl pob tystiolaeth yr oedd yn bregethwr byr, melys ac effeithiol iawn.



## Ei emynau

Myfyrio ar adnod neu adran o'r Beibl, archwilio ei harwyddocâd a'i throi'n ddarlun byw, ystyrlon, oedd dull arferol Thomas William wrth gyfansoddi emyn. Adnodau o Salm 55, er enghraifft, yw man cychwyn ei emyn, "Adenydd fel c'lomen pe cawn"; a daw'r ysbrydoliaeth ar gyfer ei emyn gorau (i'm tyb i, beth bynnag!), sef "O'th flaen, O! Dduw, rwy'n dyfod/Gan sefyll o hirbell", o ddameg yn Efengyl Luc, pennod 18. Nid yw'n syndod deall felly i'r rhan fwyaf o emynau Thomas William gael eu llunio yn y lle cyntaf ar gyfer y testunau y byddai'n pregethu arnynt ym Methesda; a phan gyhoeddwyd y prif gasgliad ohonynt, yr enw a roddodd i'r gyfrol oedd Dyfroedd Bethesda - cyfeiriad nid yn unig at y capel yn y Fro ond hefyd at y llyn yn Jerwsalem yn nyddiau Iesu Grist yr oedd modd cael iachâd ynddo (Ioan 56:1-9).

Emynydd tawel, dwys, myfyrgar yw Thomas William. Nid oes yn ei waith yr un bwrlwm afieithus ag a geir yn emynau Dafydd William. Mae'n emynydd crefftus a soniarus a chartrefol. Yn "emynydd cwynfannus", hefyd, yn ôl W J. Gruffydd.

## Dyddiau trist

Yr oedd ganddo lawer i fod yn gwynfannus yn ei gylch o tua 1790 ymlaen - gweld yn Llan-gan "borfa las [yn] tyfu ar ffyrdd oedd goch o'r blaen" wrth i awelon y Diwygiad Methodistaidd ostegu ym Mro Morgannwg, profi siom a thristwch ymraniadau eglwysig; colli nifer o'i deulu a'i gyfeillion agos trwy angau, gan gynnwys ei wraig a dau o'u tri phlentyn; dioddef ei hun am flynyddoedd gan lesgedd ac afiechyd, a hynny oll yn dod i ran un a dueddai wrth natur at fod yn ddwys a phruddglwyfus. Ond er mai dechrau yn lleddf y mae Thomas William yn aml yn ei emynau, nid yw byth yn gorffen yn y fan honno. Mae'r ddelwedd o bechod fel afiechyd a Christ fel Meddyg yn digwydd droeon yn ei waith, a thrwy'r cwbl gwelwn ei ffydd gadarn yn yr Un a all iacháu pob clwyf:

*"Wel, dyma feddyg sy'n parhau*
*Yn gwbl abl i iacháu;...*
*Dewch ato ef, rai llwythog, dewch,*
*Gorffwysfa i'ch eneidiau gewch."*



Er ei bruddglwyf, gobaith ac nid cwynfan yw gwir gywair canu Thomas William drwyddo draw a'i ffydd yn y Meddyg Mawr yn ddisigl hyd ei fedd.

**D**

YSGOLION

# Teithio ar hyd ac ar led

**Mae plant Ysgol Bro Eirwg wedi bod yn teithio tipyn yn ddiweddar. Dyma adroddiadau rhai ohonyn nhw ar eu teithiau.**

*Llun isod: Rhai o'r plant lleiaf yn ymweld â Fferm y Ddinas.*



## Llancaiach Fawr

*Mae Elin Fouladi'n ysgrifennu:*

Fe aeth blwyddyn 5 i blasty Llancaiach Fawr. Yn gyntaf aethom i gegin y plas lle roedd morwyn yn gweithio i wneud bwyd i'r teulu. Yn y gegin roedden nhw'n coginio bara a phastai bran. Roedden nhw'n coginio potage mewn pot ac yn aml hefo'r potage byddent yn cael bara. Byddent yn rhoi cig ar y 'sbit' i gael y braster o'r cig ac efo'r braster byddent yn gwneud canhwyllau. Bob haf mi fyddai'r morynion yn casglu perlysiau i wneud moddion. Byddent yn eu hongian drwy'r flwyddyn ac yna'n eu defnyddio fel moddion. Aethom i ystafell lle roedd y morynion a'r gweision yn bwyta. Roedd y teulu'n bwyta mewn ystafell wahanol. Roedd un deg pump o forynion yn gweithio yn y tŷ ar un adeg ac un deg pump o weision hefyd.

## Parc Treftadaeth

*Aeth Angharad Haf gyda'i ffrindiau i Barc Treftadaeth Rhondda:*

Pan aethom ni i Barc Treftadaeth Rhondda, gwelsom lawer o bethau diddorol iawn. Yn gyntaf gwelsom fideo tu mewn i adeilad o'r enw Trefor. Yna gwelsom un yn Berti. Fideo am amser y pyllau oedden nhw ac am y gweithwyr o dan y ddaear.

Aethom i lawr o dan y ddaear i'r pwll glo mewn lifft fach. Roedd rhaid gwisgo helmedau o dan y ddaear. Cawsom sioc am y pethau a âi ymlaen o dan y ddaear yn yr hen amser - plant 5 oed weithiau yn gorfod aros am oriau yn agor y drysau neu yn tynnu dramiau trwm. Dysgom am nwyon gwenwynig ac am ddamweiniau oedd yn digwydd yn y pwll glo tywyll, du. Roeddwn yn falch o fod yn ôl allan yn yr awyr iach.

Ar ôl cinio gwelsom dai henffasiwn a siopau gwerthu dillad, cig, bara a phethau ysgrifennu. Wedyn aethom yn ôl i'r ysgol. Roedd pawb wedi mwynhau.

## Gwylio'r bae

*Mae James Millet yn sylweddoli bod pethau'n newid yn gyflym yn y ddinas. Mae'n bwrw trem ar hanes bae Caerdydd:*

Mae yna lawer o bethau wedi newid yng Nghaerdydd. Roeddem yn arfer cael glo o Ferthyr ond nawr mae hyn wedi mynd oherwydd ein bod yn cael glo o America a gwledydd eraill.

Mae llawer o bethau'n mynd i gael eu hadeiladu ym Mae Caerdydd, fel y Tŷ Opera. Bydd yr adeiladau yma'n dod â mwy o fusnes i Gaerdydd.

Arglwydd Bute ddechreuodd adeiladu'r Bae. Doedd y bae ddim yn fawr iawn yr adeg honno ond mae'n datblygu bob dydd a llawer o bobl yn dod i'w weld.

## Morfil o forglawdd?

*Dyw Carys Davies ddim yn rhy hoff o'r syniad o forglawdd, a dyma pam:*

Fe fydd yn effeithio ar natur a bydd rhaid i'r anifeiliaid ddod o hyd i fan arall i fyw. Bydd yn costio llawer i adeiladu'r cyfan a bydd llawer o swn yn amharu ar y bobl sy'n byw yno, ac os daw llifogydd ni fydd lle i'r dŵr fynd achos bydd afonydd Taf ac Elai'n llenwi a bydd y dŵr yn mynd yn ôl dros Gaerdydd!

## Denu twristiaid

*Ac mae gan Frances Kelly ragor i'w ddweud:*

Mae pobol am ddatblygu'r Bae oherwydd eu bod nhw eisiau i Gaerdydd fod yn ddinas fusnes. Fe fu Cyngor De Morgannwg, Bro Morgannwg a Dinas Caerdydd yn dadlau am beth sy'n digwydd i Fae Caerdydd a nawr maen nhw wedi gwneud cwmni newydd sef Cwmni Datblygu Bae Caerdydd. Maen nhw'n awr am adeiladu morglawdd i gadw'r dŵr i mewn yn y bae i'w wneud yn fwy prydferth. Maen nhw hefyd am wneud hyn achos bod llongau'n mynd yn sownd yn y mwd pan fydd y llanw'n mynd allan. Maen nhw am gael gwared o'r llygredd sydd yn afon Elai,un o afonydd mwyaf llygredig Ewrop.

Mae llawer o bethau eraill yn mynd i ddigwydd ym Mae Caerdydd. Mae tram yn mynd i redeg o Bute Avenue i'r Tŷ Opera newydd, Techniquest, sydd yn mynd i fod yn fwy na'r hen un, siopau a gwestai. Bydd hyn i gyd yn denu twristiaid a busnes i Gaerdydd.

**This month's feature for Welsh learners looks at congratulating people**

# Dyma'r newyddion da

DYSGU CYMRAEG

YNG NGOFAL ALUN A MAIR TREHARNE

Mae'n braf clywed a rhannu newyddion da. Mae'r geiriau'n dod yn rhwydd. Profiad (experience) gwahanol yw derbyn newyddion drwg. Rhaid meddwl a dewis eich geiriau'n ofalus wrth rannu newyddion annymunol (unpleasant).

### SUT I LONGYFARCH RHYWUN /HOW TO CONGRATULATE SOMEONE

**Geirfa:**

| | |
|---|---|
| Ardderchog! | Brilliant |
| Gwych! | Fantastic |
| Llongyfarchiadau | Congratulations! |

**Enghraifft:**

**•Llongyfarchiadau i ti. Roeddwn i'n falch o glywed y newyddion da.•**

**Ymarfer:**

Llongyfarchiadau
ar dy swydd newydd
ar dy lwyddiant (success)
ar dy gamp(achievement)
ar enedigaeth (birth) dy ferch/dy fab
ar ennill y wobr
ar ennill dy radd (gaining your degree)
ar gyrraedd 50 oed!
ar ddod i siarad Cymraeg yn rhugl(fluently)
ar gael dy benodi
(on being appointed)
ar gael dy ddewis
ar gael dy ethol
(on being elected)

### YMATEB I LONGYFARCHIADAU / RESPONDING TO CONGRATULATIONS

**Ymadroddion:**

- Diolch yn fawr i ti / i chi.
- Dw i wrth fy modd, wrth gwrs.
- Rwyt ti'n / Rydych chi'n garedig iawn
- Aeth popeth yn iawn, diolch i'r drefn (thankfully)

### LLONGYFARCHION MEWN PAPUR NEWYDDION / CONGRATULATIONS IN PRINT

Mae cyfarchion fel y rhain i'w gweld yn *Y Dinesydd* a phapurau eraill yn aml:

**Enghreifftiau:**

**•Llongyfarchiadau i Mair Lewis o'r Eglwys Newydd ar gael ei phenodi yn Ymgynghorydd (consultant) yn Ysbyty'r Brifysgol.**

**Llongyfarchiadau calonnog (hearty) i Dafydd Richards ar gael ei ddewis yn gapten tim cyntaf Ysgol y Llan eleni eto.**

**Llongyfarchiadau i Aled a Gwawr Morgan ar gael eu hethol yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith.•**

Byddwch yn gweld yr ymadrodd (expression) ***ar achlysur*** = *on the occasion of* yn aml hefyd:

**Enghreifftiau:**

**•Llongyfarchiadau i Lowri Harris ar achlysur ei phen blwydd yn 90 oed.**

**Llongyfarchiadau i Elen a Robin ar achlysur eu dyweddiad yn ddiweddar (recently)**

**Llongyfarchiadau i Haf a Gareth ar achlysur eu priodas ar Ddydd Calan.•**

Wel, diolch a llongyfarchiadau i chi ar gyrraedd diwedd yr erthygl (article) hon! Y mis nesaf byddwn yn trafod sut i ymateb (respond) i newyddion drwg... **D**


**CANOLFAN DYSGU CYMRAEG I OEDOLION**

PRIFYSGOL CYMRU, COLEG CAERDYDD

*Cyrsiau dwys i ddysgwyr yn cyfarfod bob dydd.*

*Cyrsiau dechreuwyr a chyrsiau uwch yn dechrau Gorffenaf 24ain neu Medi 18fed.*

22 Park Place, Caerdydd CF1 3DQ Ffôn 01222 390980


# Hwyl Haf

Mae CYD yn cynnal "Hwyl Haf" yng Nghanolfan Iaith Nant Gwrtheyrn o 18 hyd 25 Awst. Mae croeso i ddysgwyr a Chymry Cymraeg fwynhau wythnos yn hamddena ac o gymryd rhan mewn gweithgareddau fydd yn cynnwys bwffe croeso, barbeciw, canu twmpath, dawns, arddangosiadau, gemau ac ati. Os oes diddordeb gennych chi, ffoniwch swyddfa CYD yn yr Hen Goleg, Aberystwyth, Dyfed SY23 2AX. Ffon/Ffacs: 01970 622143.

# Cyflwyno'r technoleg newydd

Does yr un diwydiant, o bosib, sy wedi bod yn newid mor gyflym yn y blynyddoedd diwethaf o ran y technoleg newydd, â'r banciau. Nid ein bod ni'n defnyddwyr yn sylwi cymaint oddi tu mas. Ond tu mewn ydy lle mae'r newid.

Mae Siân Devonald yn cael profiad personol ohono fe. Hi sy'n gofalu am gyflwyno'r technoleg newydd yn Banc Lloyds yn ei grwp o ganghennau yn Nwyrain Caerdydd.

"Bob amser maen nhw'n cyflwyno rhaglen cyfrifiadur newydd, mae'n rhaid i fi fod ym mhedwar lle ar yr un pryd," meddai. A hynny'n digwydd o hyd, mae gan Siân, 27 oed, gryn dipyn o waith.




Un o Gefn Eithin, ger Llanelli, ydy Siân. Ar ôl iddi adael yr ysgol, aeth i weithio i Marks & Spencer, Llanelli, ond ar yr un amser astudio am ei lefelau A yn Ffrangeg ac Almaeneg.

Wedyn, cafodd swydd fel "supernumary" gyda'r banc yn Mhontarddulais a dechrau ei gyrfa o ddifri. Cyn hir roedd ganddi'r cyfle i symud naill ai i Lundain neu i Gaerdydd i weithio. Dewisodd Brifddinas Cymru, ac erbyn hyn Trefnydd Cangen Technoleg a Gwybodaeth ydy hi ar gyfer grwp banciau City Road.

Mae'n crwydro rhwng y gangen yna a rhai Parc y Rhath, Ffordd Crwys a Rhymni.

"Wedi bod yn y swydd 'ma oddeutu dwy flynedd dw i. Sa i'n aros yn yr un lle am funud. Mae staff newydd 'da ni o hyd, rhaid dysgu sut gymaint o wahanol bethau iddyn nhw.

"Lle bum mlynedd yn ôl 'roedd manylion cwsmeriaid wedi'u gwasgaru ar draws sawl cangen, nawr mae'r cyfan ar gael trwy wthio botwm ac mae staff yn gallu ateb cwestiynau yn syth." **D**


## GWAITH TEIPIO

Os ydych yn meddu ar sgiliau teipio a phrosesu geiriau ac yn chwilio am waith achlysurol gartref neu mewn swyddfa, a wnewch chi gysylltu â:

**Sandra McAllister**
**GWASG PRIFYSGOL CYMRU,**
**6 Stryd Gwennyth, Cathays, Caerdydd**
**CF2 4YD. Ffôn 01222 231919.**

ffilmiau

**FFILMIAU APOLLO**
**Ar eich Sgrîn mis Mehefin**

Gorau Gwlad
Ar y Prom
'Dudley'

Ffilmiau Apollo, Canolfan y Cyfryngau, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 6XJ. Ffôn: 01222 590119

PENADUR

PRIS Y ARCHNAD

**Y DRYDEDD GYFRES**

**NÔL AR EICH SGRÎN YN GYNNAR YN 1996**

Penadur Cyf, 38 Stryd Cosmeston, Cathays, Caerdydd CF2 4LQ
Ffôn (01222) 231772 Fax (01222) 231773



Cardiff Tertiary College
COLEG GLAN HAFREN

**CONSORTIWM CYMRAEG I OEDOLION DE MORGANNWG**
**SWYDD TIWTOR-DREFNYDD**
**Cyflog:**
**Graddfa Uwch Ddarlithydd £21,129-£22,581**

Gwahoddir ceisiadau am y swydd tair blynedd hon a leolir yng Ngholeg Glan Hafren, De Morgannwg.

Am ffurflen gais a phecyn gwybodaeth, anfonwch amlen fawr wedi'i chyfeirio, a stamp (ni dderbynnir unrhyw geisiadau dros y ffôn) at: Fiona Robinson, Swyddog Personél, Coleg Glan Hafren, Trowbridge, Road, Caerdydd CF3 8XZ.

**Y DYDDIAD CAU ar gyfer derbyn ceisiadau yw 16 Mehefin 1995.**

# Mae Radio Cymru yn newid!

## Ac wrth newid...

## ...ry'n ni am glywed wrthych chi.




**Dewch i drafod yn yr Ystafell Gynhadledd BBC Cymru, Llandaf**

**21 Mehefin am 6.30pm**

Am fanylion pellach cysylltwch ag Ysgrifennydd BBC Cymru, Llandaf, Caerdydd CF5 2YQ neu ffoniwch 01222 572004

BBC CYMRU WALES

BBC RADIO CYMRU 92-105 FM

# Dewch i chwarae CRICC... rygbi

MAE gan CRICC (Clwb Rygbi Ieuenctid Cymry Caerdydd) dros 140 o chwaraewyr i rai sydd dan 8 oed i fyny at rai 15 oed. Maen nhw'n chwarae eu gemau bob bore Sadwrn yng Nglantaf Isaf, Pentre-baen. Y flwyddyn nesaf mae'r clwb yn ystyried cystadlu yng Nghynghrair De Morgannwg i fechgyn dan 15 ar fore Sul. Am fwy o wybodaeth ffoniwch Ian Germaine ar 753252. Cadeirydd CRICC yw Huw Llywelyn Davies, Radur a'r ysgrifennydd yw Bryn Evans,Llanedeyrn.

Yr hyfforddwyr yw: Dan 8 =Eurig Jenkins, Rhiwbeina Jonathan Owen Waunddyfal. Dan 9 oed = Bernie Simpson y Tyllgoed; dan 10 oed = Alun Jenkins, Yr Eglwys Newydd; dan 11 oed = Huw Jones, Radur; dan 12 oed = Frank Bonbello, Yr Eglwys Newydd, dan 13 oed = Ian Germaine, Parc y Rhath a Goronwy Jones Y Barri = dan 15 oed.

# Dros y clwydi

LLONGYFARCHION i Bethan Edwards, myfyrwraig yn Athrofa Addysg Uwch Caerdydd am ei champau diweddar yn y ras dros y clwydi. Mae wedi cael ei dewis i ymddangos mewn hysbyseb Raebok ar y teledu. Bu ei thad, John Edwards, yn athro yn Ysgol Courtmead, Grangetown ac yn aelod gweithgar o Aelwyd yr Urdd cyn mynd i Aberhonddu i fod yn athro'r Gymraeg ac wedyn yn brifathro Ysgol Gymraeg y Bannau yn y dref. Ewythr iddi ydy Mr Ieuan Edwards, Llyfrgellydd Dinas Caerdydd. Pob lwc iddi yn y dyfodol yn ei gyrfa academaidd yn ogystal ag ym myd athletau.

# Rygbi llwyddiannus

LLONGYFARCHION i dimoedd rygbi Ysgol Glantaf. Yng Nghynghrair Rygbi Ysgolion Caerdydd enillodd y ddau dim dan 14 a dan 15, a daeth y tim dan 12 yn ail. Enillodd y tim dan 13 Gwpan Rygbi Ysgolion Caerdydd.

## CLYBIAU

◆Yn ystod gwyliau'r Pasg fe gynhaliwyd cystadleuaeth golff ar gwrs Glyn-nedd. Bydd cystadleuaeth arall yng nghanol Mehefin, a bwriedir trefnu penwythnos golffio yn y man, ynghyd â thaith i'r Borth ac Ynys-las a Harlech. Os carech chi wybod rhagor am y clwb golff yma, ffoniwch Peter Gillard ar 01222 618268.

◆Mae'r tymor yn dechrau ar 1af Mehefin ac mae'n parhau tan 13eg Awst. Mae'r clwb yn chwarae yn Adran 1 Cynghrair Criced Caerdydd a'r Cylch (canol wythnos) ac fel arfer fe gaiff y gemau eu chwarae ar nosweithiau Mawrth, Mercher ac Iau. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r trefnydd, Dai Lloyd, 28 Lochaber St., Y Waunddyfal, Ffon: 481281.

## CHWARAEON

GYDA
TOM DAVIES



*Llongyfarchion i dim peldroed dan dair ar ddeg ysgolion Caerdydd ar eu llwyddiant yn ennill Cwpan Ysgolion Cymru'n ddiweddar. Ar ol ennill gemau yn erbyn Casnewydd, Glynebwy, Abertawe a Merthyr, fe wynebon nhw Fflint yn y rownd derfynol yn Nhrefaldwyn, ac ennill o bedair gol i ddwy. Yn y llun, mae Rhodri Jones o Ysgol Glantaf yn derbyn tlws y buddugwyr.*

# Cannwyll ein rhyddid

CELFYDDYDAU

GWEFREIDDIOL. Ysgubol. Arbennig. Gwych. Dyna rai o'r geiriau a glywyd wrth i'r gynulleidfa adael neuadd ysgol Glantaf ar ôl perfformiadau'r ysgol o'r sioe gerdd "Pum Diwrnod o Ryddid", sef hanes ymgyrch aflwyddiannus siartwyr Llanidloes yn 1839.

Roedd tlodi a dioddefaint y gweithwyr o'u cyferbynnu â breintiau a moethusrwydd y cyfoethog yn elfen gref yn y sioe. Roedd yn dipyn o her hefyd i'r actorion ifanc wrth iddyn nhw newid eu gwedd a'u gwisg yn aml rhwng gwahanol olygfeydd.

Chwaraewyd y prif rannau gan Branwen Gwyn, Catrin Williams, Rhodri Llywelyn, Iolo Evans a Sion Tudur a chafwyd perfformiadau aeddfed a theimladwy ganddynt. Cafwyd hefyd berfformiadau cofiadwy gan weddill yr actorion heb anghofio gwaith gwych y corws a'r cerddorion yn y cefndir. Roedd y gwisgoedd, y coluro, y set a'r goleuo effeithiol i gyd yn cyfrannu at berfformiad proffesiynol iawn. Roedd safon aruchel y cynhyrchiad yn ganlyniad oriau lawer o ymarfer caled o dan arweiniad Mr Alun Guy, Miss Delyth Medi Jones a Mrs Elspeth Hughes. Bu llu o weithwyr hefyd yn y cefndir cyn ac yn ystod y perfformiadau, yn ceisio sicrhau bod y cyfan yn llwyddiant. Roedd mwynhad ac afiaith y disgyblion ym mhob un o'r perfformiadau yn amlwg iawn a geiriau'r gân "Cannwyll ein rhyddid" yn aros yn y cof.

# Bod ar brawf?




MAE Theatr Crwys wedi bod yn brysur ym myd y ddrama'n ddiweddar. Ar 3ydd Mai eleni, perfformiwyd Ar Brawf (I.D.E.Thomas), drama ynghylch dilysrwydd marwolaeth ac atgyfodiad yr Iesu. Cyfarwyddwyd y ddrama gan George P. Owen. Ar gyfer y perfformiad roedd y llwyfan wedi cael ei droi'n llys barn gyda barnwr ac ati; ond y gynulleidfa oedd y rheithgor, a hi oedd biau'r penderfynu ar y diwedd. Winston Roddick (Q.C.) oedd y barnwr a chymerwyd rhannau eraill gan: Aled Evans, Non Davies, Alys Jones, George Owen, Janet Parry-Jones, Gareth Reynolds, Bob Roberts, John Rowlands, Huw Thomas, Mary William a Gareth Williams,

Ar 15 Mai fe fuon nhw'n perfformio'r gwaith un act, Marchogion y Mor (J.M.Synge), un o ddramau mawr y ganrif, gan obeithio cael eu dewis i berfformio yng nghystadleuaeth y ddrama un act yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Colwyn. Cafodd yr union ddrama'i pherfformio ar lwyfan festri hen gapel y Crwys ar 30 Mawrth 1961 gan Gwmni Drama Aelwyd yr Urdd ar gyfer cystadleuaeth yr Eisteddfod Genedlaethol yn Aberdar. Cynhyrchwyd y ddrama gan Lis Miles hefo Nia Royles (Daniel gynt) yn ysgrifennydd y cwmni. Daeth yn ail yn y prawf terfynol yn Aberdar.

# Trafod y 'normal'



AR DDECHRAU Mai bu perfformiad grymus o un o ddramau diweddaraf Meic Povey (gweler llun), yn Chapter. Ganwyd yr awdur yn Nanmor, Eryri, ond gŵr o Gaerdydd yw e ers rhai blynyddoedd bellach.

Dewisodd deitl anodd ei drin i'r gwaith cyffrous hwn, "Yn Debyg iawn i Ti a Fi." Y prif gymeriad mewn ffordd yw Derec, sy'n dioddef o anhwylder meddwl, ac fel sy'n dod yn gyffredin mwyach, y gymuned sy'n gofalu amdano. Yn y cyswllt hwn, Mam oedd y "gymuned" ond digwydd y ddrama ychydig ar ôl ei harwyl hi gyda brawd a dwy chwaer yn ceisio penderfynu beth i'w wneud ag ef.Ynddi mae'n edrych drwy lygaid y dramodydd ar y gair "normal" a phair y cymeriadau inni sylweddoli mai gair digon sigledig yw "normal" pan ddaw hi'n fater o ddyn yn trin ei gyd-ddyn, hyd yn oed os yw'r perthynas hwnnw'n berthynas waed.

Cafwydd perfformiadau grymus gan Catherine Aran, Gwenno Elis-Hodgkins, Maldwyn John a Merfyn Pierce Jones.

Cyfarwyddwyd y ddrama gan Meic Povey ei hun.


**DEFNYDDIWCH "LLAIS y GYMUNED"**

Gall *y Dinesydd* gynnig cyfle marchnata unigryw i gyrraedd yn gyson dros 14,000 o siaradwyr Cymraeg sy'n byw yn y Brifddinas a'r cylch. Achubwch ar y cyfle marchnata unigryw yma. Mae ein cyfraddau yn rhesymol iawn. Gostyngiadau ar gael ar




DINESY



YDYCH CHI'N EISTEDD YN ANGHYFFORDDUS?

Fe fyddwch chi ar bigau'r drain wrth i chi wrando ar y storiwyr adnabyddus, Michael Harvey a Daniel Morden, yn adrodd hanesion cyffrous a hudol. Dewch i glywed straeon o'r doniol a'r brawychus i gelwydd golau yn Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan, dydd Llun a dydd Gwener o 12fed Mehefin i 15fed Medi 1995.


AMGUEDDFA AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU

AMGUEDDFA WERIN CYMRU

SAIN FFAGAN, CAERDYDD, CF5 6XB **FFON: 01222 569441**

# CROESAIR AP LEWSYN

## Rhif 145 Mehefin 1995




**AR DRAWS**

5. Hen chwarae yn Nyfed a ddaeth yn ol i fri (6)
8. Pysg smotiog yr afon (8)
9. "Acha slant" yng Nghwm Rhondda (2,5)
10. Ysgarmes a ddaeth i Gymru o Loegr ganrifoedd yn ol. (5)
11. Noddfa gadarn! A fydd Maffia'n ei chwalu? (9)
13. Gosod cosb yn ol y rheithfarn. (8)
14. Y pethau sydd angen eu trafod. (6)
17. Cyseinedd y llinellau. (3)
19. Mae gan y cyfaill fflat yn Llyn. (3)
20. Storiau ar gan sy'n son am radd i'r fonesig. (6)
23. Diddymir e', ac yna gellwch gasglu eich ffydd ynddo. (8)
26. Dyma Tweli yn ei chael hi'n bosib i fod yn synhwyrus. (9)
28. Ymhellach i lawr.(5)
29. Rwy'n carthu allan y tyfiant annerbyniol. (7)
30. Tal y taeog i'w arglwydd gynt. (8)
31. Hon sydd flaenaf yn y stori. (6)

**I LAWR**

1. Cynnyrch y llif a'r felin (1,5)
2. Dod i rif anghywir ac yn sbwylio'r cyfan (7)
3. Llythyren i nodi'r traw. (9)
4. Pleser a ddaw o gael popeth yn ddymunol. (9)
5. Clawr du i wneud gorchuddion lliwgar. (8)
6. Bwydlen y wledd. (5)
7. Dau ddi-fam mewn cynnwrf wedi eu difreinio. (8)
12. Di-leferydd. (3)
15. Bugail sydd yn y Cabinet? (9)
16. Y mewnwr a'r maswr. (8)
18. Slafiaid anesmwyth nad ydynt yn bwriadu poen na niwed. (8)
21. Preswylio. (3)
22. Rhoi doli fach i ddangos fy ngwerthfawrogiad. (7)
24. Chwilen od yn fy mhen. (6)
25. Yr olaf yn dafodieithol.(6)
27. Cynnyrch gwerthfawr Carrara. (5)

**DATRYSIAD RHIF 144**



Cystadleuaeth rhif 145: Tocyn llyfr gwerth £5 eto. Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd ap Lewsyn erbyn 17 Mehefin, os gwelwch yn dda. Anfonwch at: Ap Lewsyn, 13 Rannock Drive, Caerdydd.

Enw enillwr cystadleuaeth rhif 144: Mrs Gwenda Hopkins, Llanisien.

**FFURFLEN ARCHEBU HYSBYSIAD YN "HYSBYS"**

*Enw* ----------------------------------------

*Cyfeiriad* ----------------------------------------

*Rhif ffôn* -------------------- *Rhifyn mis* --------------------

*Geiriau:*

----------------------------------------

----------------------------------------

----------------------------------------

----------------------------------------

*Cost: 25c y gair, £5 minimum. Anfonwch siec os gwelwch yn dda, yn daladwy i "Newsline", gyda'r archeb at:* ***Newsline, 24 James Street, Bae Caerdydd CF1 6EX***

# Taith gerdded dros blant y byd

## Y Gair Olaf

### GAN RICHARD G JONES

AR 4YDD Gorffennaf fe fydd Taith Gerdded Dros Heddwch yn cychwyn o'r Deml Heddwch, Caerdydd. Daw i ben ar 15fed Gorffennaf.

UNICEF (Cronfa Plant y Cenhedloedd Unedig) / Y Ganolfan Gymreig dros Faterion Rhyngwladol sy'n trefnu'r daith arbennig hon. Ei phwrpas fydd cofio am ddiwedd yr Ail Ryfel Byd a sefydlu'r Cenhedloedd Unedig hanner can mlynedd yn ôl yn 1945; ar yr un pryd fe fydd yn gyfle i godi arian at Apel UNICEF/ Y Ganolfan Gymreig dros Faterion Rhyngwladol. Bydd yr arian a godir yn mynd at waith UNICEF gyda "Plant mewn Gwrthdaro" yn Rwanda a'r cyn-Iwgoslafia.

Fe fydd Dr T P Jones, Llywydd y Ganolfan Gymreig a Mr W R Davies yn cerdded o Gaerdydd i faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abergele. Yn ymuno a hwy ar hyd y ffordd fe fydd tri o lysgenhadon UNICEF, Dafydd Iwan, Roy Noble a Max Boyce, ynghyd â nifer o enwau adnabyddus eraill.

Yna ar 2il Awst fe fydd llu o artistiaid enwocaf Cymru yn cymryd rhan yng nghyngerdd arbennig UNICEF, "Dros Blant y Byd" ym Mhafiliwn Eisteddfod Bro Colwyn. Yn eu plith fe fydd Sobin a'r Smaeliaid, Y Moniars a Dafydd Iwan. D

# HYSBYS

**GWERSI** piano. Llefydd ar gael i blant neu i oedolion. Ffoniwch 01222 844483.

**SWYDD** rhan amser: Cylch Meithrin yr Eglwys Newydd. Mae angen person brwdfrydig i gynorthwyo'r athrawes; cymwysterau'n ddymunol ond nid yn angenrheidiol. Ffoniwch 693688.

**Y SWISDIR???** Teulu'n symud i Geneva - chwilio am "nanny" o fis Medi - unrhyw oedran - rhugl yn y Gymraeg - i ofalu am Llewelyn (2) a Rhys (3 mis). Ffrangeg yn fantais. Cyfweliad yng Nghaerdydd - Gorffennaf. Cysylltwch â Carol Davies: 01222 842122.

**Y MAE** Ysgol Gymraeg Coed y Gof sydd wedi ei lleoli yn ardal Pentrebaen o Gaerdydd yn edrych am ŵr neu wraig i ymuno a thîm o weithwyr brwdfrydig sy'n gofalu am y plant yn ystod yr egwyl ginio.

Bydd y swydd yn cychwyn ar ddydd Mawrth Medi 5ed ac yn cynnig 71/2 awr yr wythnos am dal o £3.84 yr awr..

Dylai unrhyw berson sydd â diddordeb yn y swydd yma gysylltu â'r Dirprwy Brifathrawes Mrs Rh E Jones neu Pennaeth y Babanod, Mrs E Davies ar Gaerdydd 564585.

Dyddiad Cau - Gorffenaf 14eg.